Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

1. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n craffu ar y rheoliadau hyn ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ar 7 Chwefror 2007. Fe'u hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle y mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu welliannau y maent am eu gwneud i'r Rheoliadau.

2. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau gan Aelodau, ond cyflwynwyd pum pwynt o eglurhad. Ymatebodd y Gweinidog i'r rhain.

Jonathan Morgan AC:

i. Gan fod y Cynulliad eisoes yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu Awdurdodau Lleol, beth fydd y rheoliadau'n ei gyflawni y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei wneud yn barod?

Dywedodd y Gweinidog fod y fframwaith wedi'i newid a bod safonau newydd ar waith y bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal (ASGC) yn eu defnyddio i asesu'r gwasanaeth yn eu herbyn.

ii. Pa faterion cydymffurfio a chanlyniadau ariannol sydd wedi'u hasesu o ran Rheoliad 15(1) sy'n nodi ei fod yn ofynnol bod gan awdurdodau lleol "sufficient number of suitably qualified, competent and experienced persons?"

Dywedodd y Gweinidog fod y rheoliadau'n anelu at wella ansawdd gwasanaethau ac y byddant yn ysgogi mwy o staff i ennill cymwysterau. Bydd rhaid i awdurdodau lleol gyfiawnhau eu lefel staffio i'r arolygiaeth.

Jenny Randerson AC:

iii. O ran Rheolwyr Rhan 2. Mae Paragraff 10 (2) (b) (i) yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad yn dangos fod anawsterau'n codi wrth fynnu bod gan reolwyr NVQ lefel 4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i sicrhau fod gan reolwyr y gallu i ennill y cymhwyster hwn?

Dywedodd y Gweinidog fod cyfnod cyflawni NVQ lefel 4 wedi'i ymestyn o ddwy flynedd i dair blynedd. Darparwyd arian i wella hyfforddiant ym maes gofal cymdeithasol, ond roedd y ffurflenni'n dangos bod amrywiaeth o ran yr awdurdodau lleol, ac nid yw'n hawdd esbonio'r amrywiaeth hon. Mae'r gofyniad statudol yn dileu'r disgresiwn i gydymffurfio. Bydd ASGC yn monitro'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

iv. Noda'r arfarniad Rheoliadol y bydd llawer o waith ychwanegol yn deillio o'r rheoliadau hyn ac nid yw'r goblygiadau ariannol yn asesu costau posibl ac eithrio'r costau i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Reoleiddiol yn cyfeirio at gostau posibl sy'n gysylltiedig â darparu cynghorwyr meddygol. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o gostau hyn?

Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor nad yw'r gofyniad am brofion iechyd yn un newydd ac na fydd rôl y cynghorydd meddygol yn newid.

v. Asesiad Effaith Reoleiddiol – A oes cynlluniau i sicrhau y cynhelir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar Aelodau'r Panel Mabwysiadu?

Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai hyn yn digwydd.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r rheoliadau fel y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Chwefror 2007